GAFAEL YN Y BYWYD GO IAWN!

Nodyn i'r siaradwr:
Eglura beth yw'r bywyd go iawn a pham y dylai pawb geisio cael gafael ynddo. Anoga'r rhai sy'n dal yn ôl rhag ymgysegru a chael eu bedyddio i weithredu. Bydda'n gynnes ac yn gadarnhaol. Helpa'r rhai sydd â diddordeb yn y gwir i weld yn eglur fod Jehofa yn eu caru ac eisiau eu helpu

BETH YW'R BYWYD GO IAWN? (3 mun.)

Mae pobl yn dilyn gwahanol lwybrau yn y gobaith o gael dyfodol gwell a bywyd hapus a diogel

Ond, yn ôl y Beibl, nod llawer gwell yw "y bywyd sydd yn fywyd go iawn" **[Darllena 1 Timotheus 6:19]** (*bhs* 203 ¶21)

Bywyd tragwyddol mewn byd perffaith yw'r bywyd go iawn (1Ti 6:12)

Bydd miliynau yn cael byw am byth mewn paradwys ar y ddaear, yn unol â bwriad gwreiddiol Duw (Salm 37:29)

Mae cael gafael yn y rhodd arbennig hon yn werth pob ymdrech (1Ti 6:11, 17, 18; *bhs* 203 ¶22)

PAM DYLECH CHI ROI EICH BRYD AR Y BYWYD GO IAWN? (6 mun.)

Mae ymestyn at y bywyd go iawn yn dod â bendithion gwell nag unrhyw lwybr arall y gallwn ei ddewis

Cawn *fendithion ar unwaith* o ran bywyd teuluol gwell, tawelwch meddwl, a ffordd iachach o fyw **[Darllena Eseia 48:17]**

O ddewis unrhyw lwybr arall, cawn ein siomi (Pre 5:10; 2Pe 2:19)

Gallwn edrych ymlaen at lu o *fendithion yn y dyfodol* (Esei 65:21-23)

Yn y pen draw, gwastraff amser yw canolbwyntio ar bethau eraill **[Darllena 1 Ioan 2:17]**

SUT GALLWCH GAEL GAFAEL YN Y BYWYD GO IAWN? (8 mun.)

I gael gafael yn y bywyd go iawn, mae'n rhaid ichi gael eich bedyddio yn un o weision Cristnogol Jehofa (Act 8:12; 1Pe 3:21)

Cariad tuag at Jehofa sy'n ysgogi pobl i gael eu bedyddio **[Darllena Mathew 22:37, 38]**

Pa gamau mae angen i rywun eu cymryd cyn cael ei fedyddio?

Dewch i adnabod Jehofa, a *chryfhau eich ffydd* yn ei addewidion (In 17:3; Heb 11:6)

Bydd trefnu i astudio'r Beibl a dod i gyfarfodydd y gynulleidfa yn help mawr ichi (Act 8:31; Heb 10:24, 25)

Bydd ffydd gadarn yn eich helpu i gredu y bydd Jehofa yn gofalu amdanoch chi os gwnewch beth y mae'n ei ofyn

Wrth i rywun dyfu yn ei gariad tuag at Jehofa, y mae'n *difaru* am bechodau'r gorffennol ac yn *newid ei fywyd* (Act 3:19)

Gyda help Jehofa a help eich cyd-gredinwyr, gallwch lwyddo i wneud y newidiadau sydd eu hangen (Dia 13:20; 2Co 10:4, 5)

Bydd cariad at Jehofa yn eich ysgogi i *gysegru eich bywyd iddo* a rhoi ei ewyllys ef o flaen popeth arall **[Darllena Mathew 16:24, 25]** (1Pe 4:2)

Mae'r rhai sydd wedi ymgysegru i Jehofa yn datgan hynny yn gyhoeddus drwy *gael eu bedyddio* (Mth 28: 19, 20)

MAE'R BYWYD GO IAWN O FEWN EICH CYRRAEDD (10 mun.)

Os ydych chi'n credu addewidion Duw, gofynnwch i'ch hun: 'Beth sy'n fy atal i rhag cael fy medyddio?' (Act 8:35, 36)

Dywedodd Iesu y byddai rhai yn dal yn ôl rhag gafael yn y bywyd go iawn (Mth 13:22, *w02*-E 4/1 14 ¶21)

Mae rhai'n teimlo y bydd bywyd Cristnogol yn rhy anodd iddyn nhw, neu'n ofni y byddan nhw'n methu cadw gorchmynion Duw (*w06*-E 4/1 28-29 ¶12-15)

Nid yw Duw yn gofyn gormod, ac nid yw'n rhy anodd inni fyw yn unol â'i ofynion (De 30:11-14)

Mae eraill wedi llwyddo, a gallwch chi fod yr un mor llwyddiannus

[Dangosa'r fideo pedwar-munud, *Gafael yn y Bywyd Go Iawn!* sy'n dangos pobl sydd wedi astudio'r Beibl, goresgyn rhwystrau, a chael eu bedyddio. Ar ôl y fideo, trafoda beth a wnaeth helpu'r bobl yn y fideo i symud yn eu blaenau. Anoga'r rhai sydd â diddordeb i weld y byddan nhw'n gallu llwyddo yn yr un modd]

CEISIWCH Y BYWYD GO IAWN NAWR (3 mun.)

Nawr yw'r amser i geisio'r bywyd go iawn; peidiwch ag oedi!

Yn fuan iawn daw'r drefn hon i ben a bydd y ffordd o fyw sy'n gyffredin yn y byd yn diflannu (Mth 24:36-42)

Bydd Jehofa yn eich helpu i gael gafael yn y bywyd go iawn (Php 2:13; 2Pe 3:9)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School,* tudalennau 52-55, 166-169, a'r llyfryn *Darllen a Dysgu,* gwersi 4, 6, 8, 13, 14, 16, 19]

© 2018 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania